Datganiad Polisi ar Gyfle Cyfartal

Mae ymrwymiad i drin pobl yn deg yn elfen ganolog yn y rôl a gyflawnir gan ombwdsmon. Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rwyf wedi ymrwymo i ddarparu cyfle cyfartal i'r staff yr wyf yn eu cyflogi ac yn y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu gyda'n gilydd i achwynwyr. Ni fydd unrhyw ymgeisydd am swydd, aelod staff neu berson sy'n cael gwasanaeth gan OGCC yn cael ei drin yn anffafriol ar sail ei ryw, ei statws priodasol, ei ethnigrwydd, ei enwad crefyddol, ei dueddfryd rhywiol, anabledd neu oedran neu unrhyw ystyriaeth amherthnasol arall. Rwyf yn disgwyl i'm staff rannu fy ngwrthwynebiad llwyr i wahaniaethu anghyfreithlon ac annheg a'm hymrwymiad i gynnal busnes mewn modd sy'n deg â holl aelodau cymdeithas. Mae fy holl bolisïau a gweithdrefnau fel cyflogwr ac fel arall yn cydymffurfio â'r datganiad polisi hwn.